



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

LEADER 2014-2020 CYFARWYDDYD AR SUT I LENWI'R FFURFLEN MYNEGI DIDDORDEB



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LEADER 2014-2020 CYFARWYDDYD AR SUT I LENWI'R FFURFLEN MYNEGI DIDDORDEB

Os hoffech fynegi diddordeb mewn ffurfio Grŵp Gweithredu Lleol o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (2014-2020), dylech lenwi'r Ffurflen Mynegi Diddordeb sydd i'w gweld yma:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/rural-development-plan-for-wales-2014-2020/?skip=1&lang=cy>

Crynodeb o'r Broses

Dyma'r cam cyntaf mewn proses a fydd yn arwain yn y pen draw at sefydlu Grwpiau Gweithredu Lleol ac at ddatblygu a chymeradwyo Strategaethau Datblygu Lleol. Bydd dau gam i'r broses o ddewis Grwpiau Gweithredu Lleol:

Cam 1: Mynegi Diddordeb mewn ffurfio Grŵp Gweithredu Lleol

Os caiff Ffurflen Mynegi Diddordeb ei chymeradwyo yn ystod y cam hwn, bydd hynny'n cadarnhau eich bod yn gymwys i wneud cais am statws llawn Grŵp Gweithredu Lleol yn ystod ail gam y broses.

Wrth lenwi'r ffurflen Mynegi Diddordeb, dylech esbonio sut y bydd y Grŵp Gweithredu Lleol arfaethedig yn bodloni gofynion Erthyglau 28 i 31 o'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin ac Erthyglau 42 i 45 o'r Rheoliad Datblygu Gwledig. Mae'r Erthyglau hynny'n ymdrin â gofynion sy'n ymwneud â strwythur, partneriaid, trothwyon o ran poblogaeth, ayyb.

http://ec.europa.eu/agriculture/cap-post-2013/legal-proposals/com627/627_en.pdf

http://ec.europa.eu/regional_policy/what/future/index_en.cfm#4

Rhaid anfon ffurflenni mynegi diddordeb at Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2014 fan hwyraf.

Cam 2: Cais Llawn i fod yn Grŵp Gweithredu Lleol a chyflwyno Strategaeth Datblygu Lleol

Os caiff eich cais ei gymeradwyo yn ystod y cam Mynegi Diddordeb, fe'ch gwahoddir i gyflwyno cais llawn i gael statws Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) ac i ddatblygu Strategaeth Datblygu Lleol. Rydym yn gobeithio rhoi'r gwahoddiad hwnnw i chi cyn gynted ag y bo modd ar ôl i fersiwn ddrafft y Cynllun Datblygu Gwledig gael ei gyflwyno i'r Comisiwn (bwriedir gwneud hynny ym mis Mehefin/Gorffennaf 2014). Ar hyn o bryd, y disgwyl yw y bydd Strategaethau Datblygu Lleol (SDLlau) yn dechrau cael eu rhoi ar waith yn gynnar yn 2015. Cewch ragor o arweiniad a chynghor ar sut i fynd ati i baratoi Strategaeth Datblygu Lleol ar ôl i'ch cais gael ei gymeradwyo yng Ngham 1.

Bydd Grwpiau Gweithredu Lleol a fydd wedi cael cymeradwyaeth yng Ngham 1 yn datblygu Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer eu hardal. Dylai'r Strategaeth honno adlewyrchu anghenion a dyheadau'r ardal, a dylai amlinellu gweledigaeth hirdymor ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi a hyrwyddo twf economaidd. Dylai hefyd gynnwys cynllun gweithredu a fydd yn amlinellu sut y bwriedir gwireddu'r

blaenoriaethau a nodwyd. Bydd yr SDLI yn cynnwys yr holl weithgarwch arfaethedig o dan LEADER, yn ogystal ag unrhyw weithgarwch ychwanegol y mae'r GGLI yn bwriadu ymgymryd ag ef yn lleol (gan ddefnyddio cronfeydd cyllid eraill a ddarperir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd eraill, neu ffynonellau cyllid eraill). Bydd angen i'r Strategaeth egluro hefyd sut y bydd y gweithgareddau yn yr SDLI yn cael eu hintegreiddio â gwaith y Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd.

Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r elfennau o'r SDLI sy'n cael eu cyllido drwy LEADER yn cael eu cymeradwyo ar gyfer cyfnod y Cynllun Datblygu Gwledig ar ei hyd, ond y byddai cymalau'n cael eu cynnwys a fyddai'n caniatáu i'r Strategaeth gael ei hadolygu pe bai angen. Byddai Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro ac i adolygu hyn y gwaith o gyflawni'r strategaeth.

Cyllideb

Mae'r Rheoliadau'n mynnu bod yn rhaid i o leiaf 5% o gyllideb Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) gael ei dyrannu i LEADER.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyhoeddi dyraniadau dangosol o'r gyllideb a fydd ar gael i bob ardal ar gyfer gweithgarwch LEADER, ar yr amod bod yr GGLlau yn gallu cytuno ar ffordd deg a derbyniol o benderfynu ar y dyraniadau hynny. Bydd Llywodraeth Cymru, er hynny, yn ystyried yr isafswm fydd ei angen er mwyn llunio SDLI effeithiol.

Gweithgarwch LEADER

Dull yw LEADER a ddefnyddir i hyrwyddo datblygu gwledig ar lefel leol. Bydd gweithgarwch LEADER yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2014-2020 yn gydnaws â syniadaeth wreiddiol LEADER (7 egwyddor allweddol LEADER). Bydd yn canolbwyntio ar arloesi, ar dreialu dulliau newydd o weithredu, ar rwydweithio, ac ar waith cymunedol o'r gwaelod i fyny. Ni fydd cyllid LEADER yn cael ei ddefnyddio ar gyfer grantiau o dan y rhaglen nesaf.

I gael rhagor o wybodaeth am LEADER, ewch i wefan Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop (ENRD): <http://enrd.ec.europa.eu/leader/>

Bydd GGLlau yn cael cyfle hefyd, yn unol ag Erthygl 31c (o'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin) ac Erthygl 44 o'r Rheoliad Datblygu Gwledig, i wneud cais am gyllid a gynigir am gydweithredu rhwng tiriogaethau ac ar draws gwledydd.

Arweiniad ar sut i lenwi'r adrannau yn y ffurflen Mynegi Diddordeb

Adran 1: Ardal Weithredu / Wardiau Daeraryddol

Ni fydd unrhyw reidrwydd i ffiniau'r Grwpiau Gweithredu Lleol fod yr un peth â ffiniau'r awdurdodau lleol er mwyn medru manteisio i'r eithaf ar LEADER yng Nghymru.

Bydd gweithgarwch LEADER yn cael ei ganiatáu ym mhob Ward Wledig gymwys ar draws Cymru, fel y'u diffinnir isod.

Yn ystod y cyfnod 2007-13, wrth ddiffinio ardaloedd 'gwledig' at ddibenion cynlluniau Echel 3 ac Echel 4 LEADER, gwnaed hynny ar sail y dosbarthiadau ar lefel ward sydd i'w gweld yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013:

- **Wardiau Gwledig:** os yw prosiect mewn Ward Wledig, y ward ddylai gael yr holl fanteision sy'n deillio o'r prosiect hwnnw.
- **Canolfannau Gwasanaethu** neu Wardiau a Enwir: os yw prosiect mewn Canolfan Wasanaethu neu Ward a Enwir, gall *hyd at 30%* o'r manteision sy'n deillio o'r prosiect fynd i'r ward honno, ond rhaid i weddill y manteision fynd i'r Wardiau Gwledig o'i hamgylch.
- **Wardiau Cartref:** os yw prosiect yn cael ei leoli mewn Ward Gartref am resymau ymarferol neu weithredol (er enghraifft, safleoedd ac adeiladau, er mwyn arbed costau etc), ni ddylai *unrhyw* fanteision sy'n deillio o'r prosiect fynd i'r ward ei hun.
- **Wardiau Anghymwys:** wardiau trefol eu natur yw'r rhain ac ni cheir ymgymryd ag unrhyw weithgarwch sy'n cael cymorth o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 yn y wardiau hyn.

Mae'r rhestr uchod yn seiliedig ar Ddosbarthiad Ystadegau Gwladol sy'n dosbarthu aneddiadau yn ôl cyd-destun a math, ac mae'n defnyddio adrannau etholiadol Cymru. Fe'i lluniwyd gan ymgynghori ag awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Lluniwyd y rhestr am y tro cyntaf yn 2005 a chafodd ei diwygio yn 2010 ar gyfer ardaloedd y 18 o GGLlau a gymeradwywyd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig presennol.

Rhagwelir y bydd y categorïau hyn yn cael eu cadw ar gyfer y cyfnod rhaglennu newydd er mwyn sicrhau bod ardaloedd gwledig yn cael y budd mwyaf posibl o'r cyllid sydd ar gael. Anfonwch e-bost at ruralprogrammes@cymru.gsi.gov.uk os oes angen rhestr o'r Wardiau Gwledig.

Yn yr adran hon, rhaid i chi ddiffinio ardal weithredu'r Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI)/y wardiau daearyddol y bwriedir eu cynnwys ynddo. Dylai'r ardaloedd gweithredu fod yn seiliedig ar y Wardiau Gwledig cymwys a restrir uchod. Dylech restru'r wardiau a fydd yn cael eu cynnwys, a darparu map hefyd.

Os ydych am weithredu mewn unrhyw wardiau nad ydynt ar y rhestr honno ar hyn o bryd, dylech gyfiawnhau pam y dylid eu cynnwys.

Dylech esbonio pam y dewiswyd yr ardal a pham y dylai Strategaeth Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar y Wardiau Gwledig hynny, er enghraifft, drwy amlinellu eu nodweddion allweddol a'r ffactorau sy'n golygu bod yr ardal yn un gydlynol yn nhermau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Ni chaiff unrhyw Ward Wledig fod mewn mwy nag un GGLI. Os bydd mwy nag un cais yn dod i law sydd am gynnwys yr un Ward neu Wardiau, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr perthnasol ac yn gofyn iddynt fynd ati i ddatrys y sefyllfa. Byddai ymgeiswyr yn cael cyflwyno ffurflenni mynegi diddordeb diwygiedig ar yr amod eu bod yn osgoi unrhyw ddyblygu o'r fath. Er mwyn lleihau'r risg o unrhyw ddyblygu, rydym yn annog ymgeiswyr posibl i fynd ati o'r cychwyn cyntaf i gysylltu â phartneriaethau adfywio lleol a Byrddau Gwasanaethau Lleol i drafod eu cynigion.

Adran 2: Poblogaeth (o leiaf 10,000 / uchafswm o 150,000)

I ategu'r hyn a nodwyd gennych yn Adran 1, nodwch faint o bobl sy'n byw yn ardal yr GGLI ac esboniwch pam yr ydych yn eu cynnwys.

Rhaid bod gan GGLI boblogaeth o 10,000 o leiaf, ac ni ddylai fod yn fwy na 150,000. Os bydd cyfanswm y boblogaeth yn fwy na 150,000 , dylech gyfiawnhau pam yr ydych am groesi'r trothwy hwnnw.

Adran 3: Amcan o'r Themâu y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn bwriadu rhoi sylw iddynt

O dan y cynigion sydd yn y Fframwaith Strategol Cyffredin newydd, gellir mynd ati, wrth lunio Strategaeth Datblygu Lleol, i bennu blaenoriaethau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r gwahanol Gronfeydd Ewropeaidd. Bydd i ba raddau y gwneir hynny yn amrywio o'r naill ardal i'r llall. Yr hyn yr ydym am i chi ei roi ar hyn o bryd yw amcan o flaenoriaethau cychwynnol yr GGLI , a hynny ar sail yr hyn sy'n bwysig ym marn y partneriaid lleol. Bydd hynny o gymorth inni ddeall pa ran y gallai cronfeydd Ewropeaidd (unigol neu wedi'u cyfuno) ei chwarae wrth wireddu Strategaeth Datblygu Lleol a Arweinir gan y Gymuned. Bydd angen i chi sicrhau, man lleiaf, eich bod yn nodi'n glir ar eich ffurflen Mynegi Diddordeb y themâu yr ydych yn bwriadu rhoi sylw iddynt gan ddefnyddio arian LEADER.

Mae rhestr isod o'r 'themâu' y ceir rhoi sylw iddynt yng Nghymru o dan LEADER:

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac at adnoddau naturiol a diwylliannol
- Hwyluso gwaith datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- Edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
- Manteisio ar dechnoleg ddigidol

Dylech nodi pa un neu rai o'r themâu uchod a fyddai o ddiddordeb i'r GGLI.

Amcan 4: Yr anghenion a fydd yn cael blaenoriaeth yn yr ardal (gan gynnwys y nodau a'r amcanion lefel uchel)

O ystyried mai prosiectau bach yw rhai LEADER , a chan gofio hefyd fod gwneud penderfyniadau o'r gwaelod i fyny yn rhan annatod o'r dull LEADER, mae'n hanfodol bod gweithgareddau unigol yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Datblygu Lleol. Rhaid iddynt gyd-fynd hefyd â'r amcanion a'r blaenoriaethau yn y Cytundeb Partneriaeth a'r Rhaglenni Ewropeaidd perthnasol (Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig [EAFRD], Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop [EMFF], Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop [ERDF] a Chronfa Gymdeithasol Ewrop [ESF]) a fydd yn cael cymorth dan LEADER.

Dylech amlinellu'r anghenion y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt yn ardal yr GGLI, gan gynnwys y nodau a'r amcanion lefel uchel. Dylech gyfeirio yn yr adran hon hefyd at amcanion o ran trechu tlodi a sicrhau twf economaidd.

Adran 5: Partneriaid a Strategaeth Ymgysylltu

Bydd angen i chi amlinellu pwy o blith aelodau'r bartneriaeth (yr GGLI) fydd yn datblygu'r Strategaeth Datblygu Lleol, gan egluro hefyd sut y byddwch yn galluogi

partneriaid posibl i ymuno â'r Grŵp.

Dylech nodi mai lleiafrif yn unig o aelodau'r Grŵp ddylai ddod o'r sector cyhoeddus. Wrth bennu aelodaeth y Grŵp, ac wrth wneud penderfyniadau, buddiannau busnes a buddiannau cymunedol ddylai gael y prif sylw.

Wrth baratoi Strategaethau Datblygu Lleol o dan LEADER yng Nghymru, mae angen dangos y cysylltiad sydd rhwng y strategaethau hynny a Chynlluniau Integredig Sengl y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae angen dangos hefyd sut y byddant yn cael eu hintegreiddio â'r defnydd a wneir o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) eraill, a'u bod yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer trechu tlodi a sicrhau twf.

Dylech lunio Strategaeth Ymgysylltu amlinellol a fydd yn nodi'r hyn sydd gennych mewn golwg o ran mynd ati i gynnwys y sector busnes, y sector cyhoeddus, y trydydd sector, y gymuned, busnesau, a phartneriaethau etc. Dylech nodi pa rôl fydd ganddynt yn y Grŵp Gweithredu Lleol ac o ran paratoi a datblygu'r Strategaeth Datblygu Lleol.

Byddem yn disgwyl i i ddarpar GGLlau nodi sut y byddant yn sicrhau bod pawb yn ardal y Grŵp yn cael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI, gan gynnwys cynrychiolwyr sefydliadau yn y sector cyhoeddus, busnesau, cyrff gwirfoddol a phobl leol.

Adran 6: Amcangyfrif o Gostau Paratoi Strategaeth Datblygu Lleol

Dylech fynd ati yn yr adran hon i roi amcangyfrif o faint fydd yn ei gostio i baratoi'r CDLI, gan nodi hefyd faint o'r costau hynny y byddwch yn cael cymorth ar eu cyfer yn lleol (naill ai ar ffurf nwyddau/gwasanaethau neu drwy gymorth ariannol uniongyrchol). Ar ôl i Lywodraeth Cymru bwysu a mesur y cynigion a ddaw i law, bydd yn ystyried a ellir cynnig cymorth ariannol i helpu gyda'r gwaith o baratoi'r CDLI.

Mae'r Fiche Mesurau Drafft a baratowyd gan y Comisiwn ar gyfer LEADER (Erthyglau 28-31 o'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin) yn nodi pa fath o wariant sy'n gymwys mewn perthynas â'r costau uchod. Mae crynodeb i'w weld isod ond dylech droi at y Rheoliadau diweddaraf wrth fynd ati i lenwi'r ffurflen hon, gan fod y Rheoliadau hynny'n gallu newid.

Costau Rhagbaratoawl sy'n gysylltiedig â datblygu'r CDLI (costau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r CDLI, ac nid â'i weithredu)

Mae'r costau hynny'n cynnwys y gwaith meithrin gallu, yr hyfforddiant a'r rhwydweithio sy'n ofynnol er mwyn paratoi Strategaeth Datblygu Lleol.

- sefydlu partneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat; hyfforddiant ar gyfer pobl a chyrff lleol a fydd yn gysylltiedig â'r gwaith o baratoi'r Strategaeth; astudiaethau o'r ardal dan sylw; gwaith sy'n gysylltiedig â rhoi cyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau datblygu lleol; costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chydlynu'r broses o roi cynlluniau prosiect peilot ar waith, ac â datblygu a gweithredu cynlluniau prosiect peilot.
- hyfforddiant ar gyfer rhanddeiliaid lleol; astudiaethau o'r ardal dan sylw (gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb ar gyfer rhai o'r prosiectau a amlinellir yn y

CDLI); costau sy'n gysylltiedig â mireinio'r CDLlau, gan gynnwys costau ymgynghoriaeth a chostau sy'n gysylltiedig ag ymgynghori â rhanddeiliaid wrth baratoi'r strategaeth; costau gweinyddol (costau gweithredu a chostau personél) sefydliad sy'n gwneud cais am gymorth rhagbaratoawl yn ystod y cyfnod paratoi (darpar GGLlau, GGLlau sy'n bodoli eisoes, os nad oes ganddynt unrhyw ymrwymadau o ran costau rhedeg o dan raglen 2007-2013).

Adran 7: Amcangyfrif o Gostau Gweithredu Strategaeth Datblygu Lleol

Rhyngddynt, caiff costau rhedeg a chostau ysgogi (*animation*) fod yn hyd at 25% o gyfanswm y gwariant cyhoeddus mewn CDLI. Yr hyn yr ydym am i chi ei roi ar hyn o bryd yw amcan o'r costau rhedeg a'r costau ysgogi a ragwelir, gan nodi hefyd faint o'r 25% uchod fydd yn mynd ar gostau rhedeg a faint fydd yn mynd ar gostau ysgogi.

Rhagwelir y bydd llai o gostau rhedeg ar gael ar gyfer y rhaglen nesaf ond nid oes dim i atal un sefydliad rhag cyflawni'r swyddogaeth costau rhedeg ar gyfer sawl GGLI. Mae'n bwysig felly bod ardaloedd yn cydweithio ac yn cyfuno adnoddau lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau bod y rhaglen LEADER nesaf yng Nghymru yn cael ei rhedeg mewn ffordd mor effeithlon â phosibl.

Mae'r Fiche Mesurau Drafft a baratowyd gan y Comisiwn ar gyfer LEADER (Erthyglau 28-31 o'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin) yn nodi pa fath o wariant sy'n gymwys mewn perthynas â'r costau uchod. Mae crynodeb i'w weld isod ond dylech droi at y Rheoliadau diweddaraf wrth fynd ati i lenwi'r ffurflen hon, gan fod y Rheoliadau hynny'n gallu newid.

Costau Rhedeg sy'n gysylltiedig â rheolaeth ariannol ar y gwaith o weithredu'r strategaeth

Costau sy'n gysylltiedig â rheoli'r gwaith o weithredu'r strategaeth, gan gynnwys costau gweithredu, costau personél, costau hyfforddi, costau cysylltiadau cyhoeddus, costau ariannol, yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â monitro a gwerthuso'r strategaeth.

Costau Ysgogi

Costau ysgogi'r Strategaeth Datblygu Lleol a Arweinir gan y Gymuned er mwyn hwyluso trafodaethau rhwng rhanddeiliaid, darparu gwybodaeth, hyrwyddo'r strategaeth a chynorthwyo'r rheini a fydd yn elwa ar y strategaeth i ddatblygu camau gweithredu ac i baratoi ceisiadau.

Dylech nodi hefyd pwy yr ydych yn rhagweld fydd yn ymgymryd â'r swyddogaethau uchod.

Ar hyn o bryd, dim ond brasamcan o'r costau y mae eu hangen arnom, a hynny ar ffurf canrannau.

Adran 8: Gwybodaeth ychwanegol

Mae'n bosibl y byddwch am ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol, er enghraifft, sut mae'r CDLI hwn yn cyd-fynd â Strategaethau eraill tebyg.

Rhagor o wybodaeth

Mae cynigion presennol y Comisiwn ar gyfer datblygu lleol o dan LEADER yn cael eu hamlinellu yn Erthyglau 28-31 o'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin (CPR), Erthyglau 42-45 o'r Rheoliad Datblygu Gwledig (drafft) a'r Fiche Canllawiau a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Datblygu Gwledig ar 15 Mai.

http://ec.europa.eu/agriculture/cap-post-2013/legal-proposals/com627/627_en.pdf

http://ec.europa.eu/regional_policy/what/future/index_en.cfm#4

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/rural-development-plan-for-wales-2014-2020/?skip=1&lang=cy>